

# PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## 5 RHAGFYR 2023

### Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2023/24

#### Rhaglen Sefydlu Aelodau

Yn dilyn yr adroddiad ar y Rhaglen Sefydlu Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 9 Mehefin 2022 a rhoi sylw dyledus i'r sylw a wnaed wrth werthuso'r Cynefino, bydd y mynediad i recordiadau o sesiynau yn y dyfodol yn cael ei alluogi drwy'r System Rheoli Dysgu sy'n dod ar-lein ym mis Ionawr 2024.

Bydd y system newydd yn galluogi aelodau i gael mynediad at sesiynau wedi'u recordio ar unrhyw adeg a rhestr glir o'r holl bynciau perthnasol sydd i'w trafod fel rhan o'r rhaglen Sefydlu.

#### Cynllun Datblygu Blynyddol Aelodau

Mae sesiynau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant Geo-ddarganfod wedi'u harchebu ar 30 Tachwedd a 7 Rhagfyr 2023, mae dyddiadau dosbarthu a gwahoddiadau wedi'u rhannu ag aelodau. Bydd y pwnc hwn yn rhan o'r catalog o bynciau sydd ar gael drwy'r System Rheoli Dysgu yn y dyfodol.

Mae'r Gwasanaethau Democrataidd wedi cytuno â Dysgu a Datblygu i gynnal Adolygiad Datblygiad Personol blynyddol gydag Arweinwyr y Cyngor a'u haelodau i lywio'r Cynllun Datblygu blynyddol ymhellach.

Mae e-bost wedi'i ddsbarthu i arweinwyr y grwpiau sy'n darparu'r adnoddau i gwblhau'r adolygiadau cyn diwedd mis Rhagfyr. Bydd aelod o'r Tîm Dysgu a Datblygu yn casglu'r adborth a gaiff ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Blynyddol (2024/25) a'i gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.